

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol

Ionawr 2022



# 1. Cefndir

## Bil Cymwysterau Proffesiynol Llywodraeth y DU

1. Cafodd Bil Cymwysterau Proffesiynol Llywodraeth y DU<sup>1</sup> (y Bil) ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf, ar 12 Mai 2021. Noddir y Bil gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.
2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Tachwedd 2021 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Tachwedd 2021. Daeth Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 20 Ionawr 2022. Nid yw dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gyhoeddi eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
4. Ar 17 Mehefin 2021 gosododd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Gymraeg (y Gweinidog), Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd<sup>2</sup> (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil.
5. Gwnaethom adrodd<sup>3</sup> ar y Memorandwm ar 30 Medi 2021. Ymatebodd y Gweinidog yn ffurfiol i'n hadroddiad ar y Memorandwm ar 6 Hydref 2021.<sup>4</sup>
6. Ar 5 Hydref 2021, pleidleisiodd y Senedd yn erbyn cynnig i roi cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.<sup>5</sup> Yn ystod y ddadl – ac fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm – nododd y Gweinidog ei fod wedi annog Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau i'r Bil, a dywedodd wrth y

---

<sup>1</sup> Y Bil Cymwysterau Proffesiynol, fel y'i cyflwynwyd (Tŷ'r Arglwyddi, Bil 2)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Cymwysterau Proffesiynol, Mehefin 2021

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, Medi 2021

<sup>4</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, 6 Hydref 2021

<sup>5</sup> Cyfarfod Llawn, 5 Hydref 2021

---

Senedd na fyddai'n argymhell iddi gydsynio i'r Bil hyd nes bod newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud a bod sicrwydd yn dod i law.<sup>6</sup>

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

7. Ar 6 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)<sup>7</sup> gerbron y Senedd mewn cysylltiad â gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 9 Tachwedd 2021 yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.
8. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 10 Chwefror 2022.<sup>8</sup>

### Y wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru a'r gwelliannau a wnaed i'r Bil y ceisir cydsyniad ar ei gyfer ers cyhoeddi'r Memorandwm

9. Mae paragraffau 8 i 11 o Femorandwm Rhif 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, ac yn nodi sut y mae Memorandwm Rhif 2 yn wahanol i'r Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2021.
10. Mae paragraffau 12 i 20 yn nodi'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn awr.
11. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi:

*"Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud gwelliannau i Gymal 1 y Bil fel y'i cyflwynwyd ac wedi mewnosod cymalau 14 a 15 ychwanegol, fel y cytunwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 9 Tachwedd."*<sup>9</sup>

12. Ym mharagraff 9 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn cadarnhau ei fod yn dal i bryderu bod pwerau i wneud rheoliadau cydredol yn parhau i fod yn y Bil. Mae'r pryder hwn wedi'i adlewyrchu yn sylwadau'r Gweinidog ar gymal 1, cymal 14 newydd a chymal 15 newydd.

<sup>6</sup> Cyfarfod Llawn, 5 Hydref 2021

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Cymwysterau Proffesiynol, Rhagfyr 2021

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (rhif 2) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, Rhagfyr 2021

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 11

**13.** O ran cymal 1 o'r Bil a'r gwelliant a wnaed iddo, mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi gwrthwynebiad parhaus y Gweinidog i'r cymal hwn gan fod "mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod dileu'r pwerau cydredol a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor".<sup>10</sup>

**14.** Ym mharagraff 14 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Mewn ymdrech i fod yn adeiladol, mae swyddogion wedi dweud wrth Lywodraeth y DU ar sawl achlysur y gallwn fod yn barod i argymell cydsyniad ar gyfer y Bil hwn, gan gynnwys cymal 1, os gwneir gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi bod yn barod i wneud unrhyw welliant o'r fath."*

**15.** O ganlyniad, mae Memorandwm Rhif 2 yn cadarnhau na fydd y Gweinidog yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad ar gyfer cymal 1 o'r Bil.<sup>11</sup>

**16.** Mae cymal 14 newydd o'r Bil yn ymwneud â diogelu ymreolaeth rheoleiddwyr pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud o dan gymalau 1, 3 neu 4 o'r Bil (sydd i gyd yn darparu ar gyfer pwerau cydredol). Mae paragraff 16 o Femorandwm Rhif 2 yn darparu barn y Gweinidog bod y cymal newydd yn gwneud darpariaeth y gallai'r Senedd ddeddfu ar ei chyfer mewn perthynas â meysydd datganoledig ac felly mae'r cymal yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**17.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn amlinellu bod cymal 14 newydd wedi'i ychwanegu at y Bil i "roi sicrwydd i reoleiddwyr mai dim ond pan na fyddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar ymreolaeth reoleiddiol y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol ddeddfu".<sup>12</sup>

**18.** Mae paragraff 16 o Femorandwm Rhif 2 yn amlinellu pryderon y Gweinidog ynghylch y cymal newydd hwn, yn benodol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor weithredu fel yr awdurdod cenedlaethol priodol a rheoleiddio mewn meysydd Cymreig datganoledig, a allai fod yn groes i nodau rheoleiddwyr Cymreig neu Gweinidogion Cymru.

---

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 14

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 14

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 16

---

- 19.** Unwaith eto, mae gwrthwynebiad parhaus y Gweinidog i bwerau cydredol yn y Bil (yng nghymalau 1, 3 a 4 o'r Bil) yn golygu y bydd yn argymhell bod cydsyniad ar gyfer cymal 14 newydd yn cael ei atal.<sup>13</sup>
- 20.** Mae cymal 15 newydd y Bil yn ymwneud ag ymgynghori â rheoleiddwyr. Mae paragraff 19 o Femorandwm Rhif 2 yn cadarnhau barn y Gweinidog bod y cymal newydd hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 21.** Er bod y cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori â rheoleiddiwr cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 1, 3 neu 4 o'r Bil (sydd i gyd yn darparu ar gyfer pwerau cydredol), mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi, "nid yw'n mynd mor bell ag atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau y mae'r rheolyddwyr wedi'u gwrthwynebu yn ystod ymgynghoriad o'r fath."<sup>14</sup> Ymhellach – ac fel yn achos cymal 14 newydd – gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor weithredu fel yr awdurdod cenedlaethol priodol a gwneud rheoliadau o'r fath mewn meysydd datganoledig.
- 22.** Am yr un rhesymau ag a amlinellwyd uchod mewn cysylltiad â chymal 14 newydd, mae Memorandwm Rhif 2 yn cadarnhau y bydd y Gweinidog yn argymhell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad ar gyfer cymal 15 newydd, yn benodol oherwydd gwrthwynebiad i'r pwerau cydredol yn y Bil.
- 23.** Daw'r Gweinidog i'r casgliad canlynol:

*"Credaf fod angen gwelliannau pellach i fynd i'r afael â'm pryderon mewn perthynas â'r pwerau cydredol yn y Bil.*

*Ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil ar sail y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiad y Bil ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn ôl yr angen."<sup>15</sup>*

- 24.** O ran y pryderon a fynegwyd yn flaenorol gan y gweinidog ynghylch yr hyn sydd bellach yn gymal 16(5) o'r Bil (cymal 14(5) yn flaenorol), ym mharagraff 10 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn nodi bod ei bryderon ynghylch cynnwys y cymal hwn wedi cael sylw gan Lywodraeth y DU, sydd "wedi ei gwneud yn glir mai effaith cymal 16(5) yw ymestyn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru mor bell â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan

---

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 17

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 19

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 24-25

---

gynnwys y gallu i wneud rheoliadau sy'n addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl gyda chydysyniad Llywodraeth y DU, ond dim pellach". Mae'r Gweinidog yn datgan ymhellach ei fod yn derbyn y safbwynt hwn ac yn derbyn bod cymalau 16(2) ac 16(5) gyda'i gilydd "yn cael yr effaith o alinio cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol fel hyn".

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**25.** Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 17 Ionawr 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 24 Ionawr.<sup>16</sup>

### Ein barn ni

**26.** Rydym yn nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch y gwelliannau a wnaed i gymal 1 o'r Bil ac i gymalau 14 a 15 newydd ac yn cytuno â Llywodraeth Cymru y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn yn y Bil.

**27.** Rydym yn parhau i rannu pryderon y Gweinidog ynghylch bodolaeth y pwerau cydredol<sup>17</sup> yn y Bil. Er gwaethaf y pryderon hyn a rennir, amlygodd ein hadroddiad cynharach ar y Memorandwm i'r Gweinidog nad oeddem yn fodlon ar y mecanwaith a ffefrir ganddo ar gyfer datrys y broblem hon, sef rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gydsynio i reoliadau a wneir mewn meysydd datganoledig, heb unrhyw rôl i'r Senedd.

**28.** Roedd argymhellion 3 a 4 yn ein hadroddiad ar y Memorandwm yn ymdrin â'r mater hwn. Roedd argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cynharach yn dweud y dylai'r Gweinidog gyfiawnhau pam mae pwerau cydredol yn briodol ar gyfer y Bil hwn pan na fyddai'n rhoi'r cyfle i'r Senedd gynnal gwaith craffu ar y rheoliadau hynny, pe bai'n cael ei harfer gan Weinidogion y DU gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

**29.** Nid yw ymateb ffurfiol y Gweinidog – sef mai man cychwyn Llywodraeth Cymru yw nad yw swyddogaethau cydredol yn briodol ar gyfer y Bil – yn mynd i'r afael â'n pryder.

**30.** Gwnaethom ysgrifennu<sup>18</sup> at y Gweinidog ar 15 Hydref 2021 yn gofyn am eglurhad pellach a llawnach ar y mater hwn. Atebodd y Gweinidog ar 22 Tachwedd 2021 a dywedodd wrthym:

*"Nid fy mwriad yw peidio â rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac rwy'n cydnabod casgliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor sy'n nodi eich pryderon ynghylch rôl y Senedd o ran y mater hwn. Hoffwn ddweud unwaith eto y credaf na ddylid cael unrhyw*

---

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Ionawr 2022, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Ionawr 2022

<sup>17</sup> Pwerau cydredol yw'r rheini y caiff Gweinidogion Cymru neu Weinidogion y DU eu harfer mewn perthynas â Chymru. Pan fo angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i arfer pŵer gan Weinidogion y DU, caiff ei ddisgrifio fel pŵer cydredol plws.

<sup>18</sup> Llythyr at y Gweinidog, Addysg a'r Gymraeg, 15 Hydref 2021

*bwerau cydredol yn y Bil hwn. Er hyn, os yw Llywodraeth y DU yn parhau i gynnwys y pwerau hyn, yna byddaf yn dal ati i geisio gwelliant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Os bydd hyn yn llwyddiannus, yna yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol, sydd wedi'u rhannu â'r Pwyllgor, byddaf yn ysgrifennu at bwyllgorau perthnasol y Senedd i roi gwybod iddynt am unrhyw fwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer y pŵer cydredol plws mewn perthynas â Chymru. Pan fo amser yn caniatáu, byddaf hefyd yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn imi roi cydsyniad."*<sup>19</sup>

**Casgliad 1.** Er ein bod yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i hysbysu pwyllgorau'r Senedd am unrhyw fwriad gan Lywodraeth Cymru i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer pwerau cydredol plws mewn perthynas â Chymru, pe bai Llywodraeth y DU yn cytuno'n gyntaf i ddiwygio'r Bil i roi rôl gydsynio i Weinidogion Cymru, rydym yn ailadrodd ein pryder y byddai hynny'n gweithredu'n groes i'r Senedd mewn maes o fewn cymhwysedd. Nid yn unig y mae'n cael ei hamddifadu o rôl sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fanylion deddfwriaeth sylfaenol ar fater datganoledig a fydd yn dod i rym yng Nghymru, ond hefyd o ran cyflawni ei rôl o gynnal gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a ddaw'n gyfraith yng Nghymru.

**31.** Ymhellach i gasgliad 1 a'r materion a godwyd uchod, rydym unwaith eto yn tynnu sylw at faterion a godwyd yn ein hadroddiad cynharach ar y Memorandwm (yng nghasgliadau 2 a 3, ac argymhelliad 6) ynghylch y cyfuniad o swyddogaethau cydredol a phwerau Harri'r VIII yn y Bil fyddai – heb gydsyniad y Senedd (neu Weinidogion Cymru) – yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor arfer pwerau gwneud rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddfau'r Senedd a'r *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**32.** Yn benodol o ran y darpariaethau yn y Bil a fyddai'n galluogi diwygio Deddf 2006 drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU heb gydsyniad y Senedd (neu Weinidogion Cymru), roedd argymhelliad 6 yn ein hadroddiad ar y Memorandwm yn gofyn i'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i gael gwared ar y pŵer hwn. Yn ei ymateb ffurfiol i'n hadroddiad, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai'n ceisio gwelliant o'r fath. Er na chyfeirir ato ym Memorandwm Rhif 2, nodwn fod y Gweinidog wedi dweud yn ei lythyr atom ar 22 Tachwedd 2021:

*"...Ar 28 Hydref, ysgrifennais at yr Arglwydd Grimstone i ofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i sicrhau na all y pwerau yn y Bil gael eu defnyddio*

---

<sup>19</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, 22 Tachwedd 2021

---



*gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gofynnais hefyd am welliant a fyddai'n darparu ar gyfer eithriad penodol o ofynion cydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru."<sup>20</sup>*

**Argymhelliad 1.** Er ein bod yn croesawu camau'r Gweinidog i geisio gwelliant i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, dylai'r Gweinidog – ar y cyfle cyntaf a chyn dadl y Senedd ar gynnig cydsyniad perthnasol – roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau gweithredu perthnasol gan Lywodraeth y DU, neu drafodaethau â hi, ar y mater penodol hwn.

**33.** O ran yr hyn sydd bellach yn gymal 16(5) yn y Bil – cymal 14(5) yn wreiddiol (ac y cyfeirir ato felly yn y Memorandwm a'n hadroddiad ar y Memorandwm) – gwnaethom dynnu sylw'n flaenorol at y ffaith bod drafftio'r cymal hwn yn golygu y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael cydsyniad Gweinidog y Goron ar gyfer unrhyw reoliadau sy'n cynnwys darpariaethau y byddai – pe baent wedi'u cynnwys mewn Deddf gan y Senedd – yn ofynnol iddyn nhw gael cydsyniad Gweinidog y Goron. O dan Atodlen 7B i Ddeddf 2006, unwaith y bydd pŵer i wneud rheoliadau wedi'i roi drwy Ddeddf gan y Senedd gyda chydsyniad un o Weinidogion y Goron, gall Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwnnw heb y cyfyngiad i ofyn eto am gydsyniad un o Weinidogion y Goron ar gynnwys y rheoliadau. Felly, mae'r pŵer yng nghymal 16(5) yn bŵer anarferol, ac annymunol, i'w gynnwys mewn Bil. O'r herwydd, roedd argymhelliad 7 yn ein hadroddiad ar y Memorandwm yn dweud y dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i ddileu'r ddarpariaeth hon o'r Bil.

**34.** Yn ei ymateb ffurfiol ar 6 Hydref 2021 i'n hadroddiad ar y Memorandwm, dywedodd y Gweinidog fod y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad wedi cyfnewid gohebiaeth â'r Farwnes Bloomfield ar y mater hwn, ac yn parhau i amlinellu ei bryderon ynghylch y dull a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r cymal penodol hwn.

**35.** Yn ein llythyr at y Gweinidog ar 15 Hydref 2021 fe wnaethom nodi er ein bod yn derbyn bod y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad wedi cyfnewid gohebiaeth â Gweinidog Llywodraeth y DU ar y mater hwn, y byddem yn croesawu eglurhad o ran a fydd y Gweinidog yn ceisio'n ffurfiol y gwelliant i'r Bil fel y'i nodir yn yr argymhelliad. Wrth ofyn am yr eglurhad hwn, roeddem yn ymwybodol o ymateb pendant y Gweinidog i argymhelliad 6 yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, lle nododd yn glir y ceisir gwelliant.

---

<sup>20</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, 22 Tachwedd 2021

**36.** Mewn ymateb, yn ei lythyr atom ar 22 Tachwedd 2021, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir y bydd yn estyn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yng nghymal 14 i'r un graddau â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys y gallu i wneud rheoliadau sy'n addasu swyddogaethau awdurdodau neilltuedig gyda chydysyniad Llywodraeth y DU, ond nid ymhellach na hynny. Rydym yn derbyn hyn, a hefyd yn derbyn bod cymal 14(2) a chymal 14(5) gyda'i gilydd yn cael yr un effaith ag alinio cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol yn y ffordd hon. Felly, ni fyddaf yn ceisio gwelliant i ddileu cymal 14(5)."*<sup>21</sup>

**37.** Rydym yn nodi bod Memorandwm Rhif 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bryderon gwreiddiol y Gweinidog gyda chymal 16(5) (cymal 14(5) yn flaenorol) o'r Bil a bod y pryderon hynny "wedi cael sylw gan Lywodraeth y DU erbyn hyn".

**38.** Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw wybodaeth ym Memorandwm Rhif 2 ynghylch natur y sicrwydd a roddwyd i'r Gweinidog gan Lywodraeth y DU. Ymhellach, hyd y gwyddom, nid yw unrhyw drafodaethau rhynglywodraethol o'r fath a sicrwydd yn hyn o beth yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw welliannau a wneir i wyneb y Bil. Yn absenoldeb gwybodaeth o'r fath – neu newidiadau i wyneb y Bil ei hun – rydym yn parhau i fod o'r farn bod y cymal fel y'i drafftwyd yn cynnwys cyfyngiad ychwanegol ar bŵer Gweinidogion Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog – ar y cyfle cyntaf a chyn y ddadl yn y Senedd ar gynnig cydsyniad perthnasol – roi rhagor o wybodaeth ynghylch sut a phryd y gwnaeth Llywodraeth y DU ei safbwynt yn glir mewn perthynas â chymal 16(5) (cymal 14(5) yn flaenorol) a rhoi mwy o fanylion am y sicrwydd, a sut y mae sicrwydd o'r fath wedi lleddfu pryderon blaenorol y Gweinidog.

**39.** Yn olaf, amlygodd ein hadroddiad ar y Memorandwm ein pryder ynghylch yr oedi wrth osod y Memorandwm.<sup>22</sup> Rydym yn nodi unwaith eto y bu oedi hefyd cyn gosod Memorandwm Rhif 2 gerbron y Senedd, a'i fod wedi cyrraedd bron i bum wythnos ar ôl i welliannau perthnasol gael eu cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi.

---

<sup>21</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, 22 Tachwedd 2021

<sup>22</sup> Gweler yr adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, Medi 2021, paragraffau 14-15 ac argymhelliad 1

---

**40.** Er ein bod yn nodi bod y Gweinidog, yn ei lythyr atom ar 6 Rhagfyr 2021, wedi dweud bod y gwelliannau wedi codi “nifer o faterion cyfansoddiadol cymhleth” a bod y dadansoddiad ohonynt wedi arwain at yr oedi hwn.<sup>23</sup>, rydym yn atgoffa’r Gweinidog o’r sylwadau a’r casgliadau a wnaethom yn ein hadroddiad ar y Memorandwm ac yn parhau i bwysleisio pa mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth amserol i’r Senedd, fel y gall gynnal gwaith craffu llawn phriodol ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau’r DU.

---

<sup>23</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a’r Gymraeg, 6 Rhagfyr 2021

---